**LC1394**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006

Mae’r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) (Rhif 2) 2005 (OS 2005/3384 (Cy.268)) ("y Prif Reoliadau") a Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal mewn Swau) (Cymru) (Rhif 2) 2005 (OS 2005/3385 (Cy.269)) ("y Rheoliadau Swau"), gan adlewyrchu newidiadau dilynol mewn deddfwriaeth Ewropeaidd.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan ddefnyddio gweithdrefn rannol Weithredol, wedi iddynt gael eu cymeradwyo yn y Cyfarfod Llawn ar 18 Hydref 2006, ond heb iddynt gael eu hystyried ymlaen llaw gan y Pwyllgor Deddfau. Daethant i rym ar 13 Tachwedd 2006.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwynt canlynol o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae Rheoliad 8(2)(b) yn cyfeirio at reoliad 8 o Reoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2005. Dirymwyd y Rheoliadau hynny gan Reoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2006. Felly, dylai’r cyfeiriad hwn fod wedi bod at reoliad 8 o Reoliadau 2006. [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Mân wall drafftio neu deipograffyddol yw hwn a fyddai wedi bod yn addas i’w gywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Sylw

Mae Rheoliad 7(6)(b) yn cyfeirio at Orchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Tarddu o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) 2006. Dirymwyd y Gorchymyn hwnnw gan Orchymyn (Rhif 2) a wnaed ar 7 Tachwedd 2006 a daeth hwnnw hefyd i rym ar 13 Tachwedd. Felly, pan geir cyfle, dylai’r cyfeiriad yn y Rheoliad hwn gael ei ddiweddaru I gyfeirio at y Gorchymyn newydd.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 28 Tachwedd 2006